# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch Wilson, N.B. Marshallsea ac J.M. Norman.

Aelodau cyfetholedig: R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru), Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd) a I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau) a R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg).

121 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

122 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr H.M. Payne (Is-Gadeirydd) ac E. Penn.

123 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

124 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

125 CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR YR HAF 2022 –

Rhoes y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol dros Gonsortiwm Canol y De (CCD) gyflwyniad i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Addysgiadol yng Nghymru yn dilyn ymddeddfu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021. Gosododd y Ddeddf ofynion newydd y cwricwlwm i'r holl ddysgwyr 3 i 16 oed mewn addysg feithrin y wladwriaeth neu rai nas cynhelir yng Nghymru.

I gefnogi'r cyflwyniad, gwnaeth Pennaeth ysgol gynradd ac uwch-bennaeth cynorthwyol o ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg sylwadau am y modd yr oedd eu hysgolion wedi dylunio ac addasu cwricwlwm a gweithredu un fyddai'n cyflenwi gofynion y Cwricwlwm Cymreig fel y'u nodwyd ac yn darparu'r gwersi a ddiffiniwyd ganddo.

Erbyn Medi 2022, byddai gofyniad cyfreithiol ar ysgolion i ddylunio cwricwlwm, addasu eu cwricwlwm, a chyhoeddi crynodeb ohono, gweithredu eu trefniadau cwricwlwm ac asesu a pharhau i adolygu eu trefniadau a chyflawni dyletswyddau ychwanegol ynghylch y cwricwlwm. I grynhoi, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol nad oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fod wedi perffeithio neu gwblhau pob agwedd ar ddiwygio cynllun y cwricwlwm erbyn ei gyflwyno.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cynorthwyol gyda chyfraniadau gan y Penaethiaid a wahoddwyd a chwestiynau wedyn gan y Pwyllgor, ychwanegodd y cyflwynydd a'r gwesteion y canlynol:

- O ran cyllid i dalu am amser athrawon y tu allan i'r ystafell ddosbarth i gefnogi datblygu'r cwricwlwm, yr oedd yr ysgolion i ddechrau wedi teimlo baich ariannol; fodd bynnag, lliniarwyd hyn trwy gyflwyno Grant Dysgu Proffesiynol (GDP) Llywodraeth Cymru (LlC) oedd yn aml yn cael ei neilltuo i dalu am athrawon cyflenwi ac adnoddau dysgu. Yn y cyd-destun presennol, byddai staff dysgu yn aml yn gweld gwerth amser yn rhydd a buasent yn aml yn cefnogi ei gilydd, a byddai hyn yn gostwng mwy at gostau athrawon cyflenwi. Cafodd pob ysgol hefyd gyllid cydweithredu trwy system grant CCD oedd yn ychwanegol at Grant Dysgu Proffesiynol LlC. Yr oedd y gyfradd sylfaen tua £6k yr ysgol ynghyd â £100 am athrawon Cyfatebol Amser Llawn (CALl).
- Yr oedd hyd yn oed staff dysgu mewn ysgolion oedd yn gwneud yn dda yn gweld manteision diwygio cenedlaethol ac yn ystyried bod y cwricwlwm newydd yn newid cadarnhaol. Diolch i ymrwymiad y staff, yr oedd manteision datblygu'r cwricwlwm yn aml yn cael eu gweld yn uniongyrchol, a hyn yn ei dro yn adeiladu cefnogaeth i ymwneud â'r broses. Yr oedd y gefnogaeth fentora ac ariannol a roddwyd gan CCD i ysgolion yn hollol hanfodol. Yr oedd y Cwricwlwm i Gymru yn unigryw gan iddo gael ei ddatblygu dros gyfnod maith o amser; felly, bu'r agwedd ragweithiol ac ymagwedd y staff dysgu yn rhwystr ar y dechrau. Fodd bynnag, gallai'r staff yn awr weld bod y canlyniadau cadarnhaol oedd yn canoli ar bedwar pwrpas y cwricwlwm yn bopeth yr oedd ysgolion eu heisiau i'w disgyblion a chymdeithas yn ehangach. Ystyr hyn oedd bod disgyblion yn rhan o ymwneud â'u dysgu eu hunain.

- Bu ymateb y disgyblion ar y cwricwlwm yn gadarnhaol iawn. Byddai ysgolion yn aml iawn yn cynnal gwahanol fathau o Dasgluoedd Disgyblion yn rheolaidd, a hyn yn gyfle i ddisgyblion roi gwybod i'r staff am yr agweddau ar y cwricwlwm oedd orau ganddynt hwy, a'r agweddau at ddysgu oedd yn gweithio'n dda.
- O ran diwygio cymwysterau oedd yn mynd ochr yn ochr â'r cwricwlwm ac effaith hynny ar ddisgyblion, roedd y newidiadau yn cael eu harwain gan Gymwysterau Cymru. Cafwyd ymgynghori ar raddfa eang iawn, ac yr oedd yn dal i ddigwydd, ac ni fyddai'r newidiadau yn cael eu gweithredu hyd nes y byddai disgyblion Blwyddyn 10 bresennol yn rhan o'r cyflwyno. Ar wahân i gymwysterau ffurfiol, roedd mwy o waith yn digwydd ym maes cynllunio ysgolion ac asesu ochr yn ochr â'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod llwyddiannau disgyblion ym mhob ysgol yn adlewyrchu gofynion y cwricwlwm. Yr oedd ysgolion yn symud ymlaen yn bwyllog o ran asesu er mwyn gwneud yn siŵr fod y dulliau asesu a'r agwedd at hyn yn briodol, a bod y disgyblion felly wedi eu paratoi am gymwysterau ffurfiol.

Gan nad oedd mwy o gwestiynau na sylwadau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

CYTUNWYD – Y dylid diolch i westeion gwadd am eu cynrychiolaethau trylwyr ar y Cwricwlwm i Gymru: Taith i 2022 – Diweddariad Tymor yr Haf 2022 a nodi cynnwys y cyflwyniad.

126 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/22 (CYF) –

Cyflwynodd y Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles y cyfeiriad dwy-flynedd o'r Cabinet a godwyd yng Nghyfarfod y Cabinet ar 9 Mehefin 2022.

Yr oedd gan y Cyngor gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gael i ddiogelu plant ac oedolion oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor. Felly yr oedd Adroddiad Blynyddol 2021/22 wedi rhoi trosolwg o'r gweithgareddau Diogelu Corfforaethol a ddigwyddodd ledled yr Awdurdod Lleol ers cyflwyno'r adroddiad canol-blwyddyn i'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, a chwestiynau yn sgil hynny gan y Pwyllgor, dywedodd y swyddogion ymhellach:

- Fod ynysu disgyblion wedi ei gynnwys yn y Polisi Arferion Cyfyngol ac Ymyriadau Corfforol a fwriadwyd i ddiogelu disgyblion. Mae'r arfer o ynysu disgyblion yn llawer llai cyffredin mewn ysgolion heddiw.
- Cynhaliodd Estyn adolygiad thematig dan y teitl "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon." Canolbwyntio yr oedd yr adolygiad ar brofiadau o aflonyddu rhywiol gan gyfoedion ymysg disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Gwnaed sawl argymhelliad o ganlyniad i'r adolygiad, ac mewn ymateb, yr oedd y Cyngor wedi gofyn i ysgolion adrodd yn erbyn adolygiad Estyn er mwyn deall yn well lle'r oedd ysgolion o ran ymdrin â'r mater. Yr oedd yr adroddiad o blaid newid diwylliant ymaith oddi wrth ymddygiad misogynistaidd mewn ysgolion, a chydnabuwyd bod ffordd faith i fynd i nodi a gweithredu newid diwylliant effeithiol mewn ysgolion.

- Yr oedd gan bawb gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol i godi ymwybyddiaeth o fwlio mewn ysgolion a mynd i'r afael a hyn er mwyn sicrhau y gallai pob disgybl dderbyn addysg mewn amgylchedd diogel. Byddai angen ymdrin â hyn mewn ffordd synhwyrol a phriodol, gan gadw mewn cof ddiwylliant pob ysgol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg ei bod yn dda gweld hyfforddiant diogelu estynedig yn cael ei gynnig mewn ysgolion, yn enwedig gan fod hyfforddiant digonol yn un o ofynion adolygiadau Estyn. Fodd bynnag, yr oedd yn siom nad oedd hyfforddiant diogelu yn orfodol i lywodraethwyr ysgolion. Ar bwynt gwahanol, da oedd gweld yr adroddiad yn cyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaethol Asesu Risg (MARAC) ac yr oedd yn bwysig bod athrawon yn gweld yr holl ddisgyblion fel cynnyrch amgylchedd eu cartrefi o ran eu cefndir diwylliannol. Nid oedd adolygiad Estyn yn un calonogol i'w ddarllen, ac yr oedd yn frawychus gweld beth oedd yn cael ei weld fel "tynnu coes" derbyniol. Byddai'n ddiddorol felly gweld astudiaeth achos am sut y llwyddodd ysgol i newid y diwylliant.

Wedi i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, aeth ymlaen i

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2021/22 atodedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol ar waith a oedd wedi'i wneud i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

127 YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I DROSGLWYDDO CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL YN YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG (CYF) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau y cyfeiriad ac atodi adroddiad y Cabinet oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y cynnig i adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn barhaol o Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol y Ddraig o Ionawr 2023 ymlaen.

Cyflwynwyd y cynnig dan Adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Y mae Adran 2.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Gyfnewidiadau Rheoledig ysgol, a phetaent yn cael eu derbyn gan y Cabinet, buasent yn destun ymgynghoriad statudol fel y nodir yng nghorff yr adroddiad. Yr oedd y cyfeiriad i'r Cabinet a'r adroddiad a atodwyd wedi eu derbyn gan y Pwyllgor fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig.

Symudodd y ddarpariaeth CAA gyfredol yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol y Ddraig dros dro yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn gallu cynnal ymbellhau cymdeithasol ac amgylchedd dysgu diogel. Ymchwiliodd y Cyngor i'r dewisiadau oedd ar gael i gyflwyno'r ddarpariaeth o safle ysgol arall oedd a lle fyddai'n caniatáu ymbellhau cymdeithasol, awyru da, a defnydd diogel o doiledau i'r disgyblion. Cafwyd y lle hwnnw yn Ysgol Gynradd y Ddraig yng ngorllewin Bro Morgannwg. Trefniant

dros dro oedd yr un y cytunwyd arno, ac yr oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gyda'r ddealltwriaeth y byddai'r ganolfan yn dychwelyd i Ysgol Gynradd Llandochau unwaith i gyfyngiadau COVID gael eu llacio.

Yr oedd swyddogion yr awdurdod lleol o'r Gwasanaethau Adeiladu wedi cynnal archwiliad o'r lle oedd ar gael yn Llandochau, ac wedi dod i'r casgliad y byddai angen ail-lunio helaeth ar lawr isaf yr ysgol er mwyn creu digon o le i'r ddarpariaeth at y dyfodol. Hefyd, oherwydd cyfyngiadau'r safle, ni fyddai unrhyw ail-lunio yn creu amgylchedd o'r un safon â'r hyn y gellid ei gynnig yn Ysgol y Ddraig, oedd yn gyfleuster a godwyd o'r newydd gyda holl fanteision ysgol yr 21ain ganrif.

Yn dilyn y cyflwyniad a chwestiynau yn sgil hynny gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Rheolwr Gweithredol y canlynol:

- Fod y CAA yn ddarpariaeth i Fro Morgannwg gyfan, ac felly yr oedd rhai teuluoedd eisoes yn teithio cryn bellter i gyrraedd y ddarpariaeth. Roedd yn amhosib dweud fod un safle yn well na'r llall oherwydd bod y costau cludo perthnasol yr un fath.
- Cludiant yn ôl ac ymlaen o'r safle arfaethedig newydd oedd y prif fater i'r Cyngor ei ystyried, ac felly yr oedd y Cyngor yn awyddus i glywed beth fyddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Yr oedd y ddarpariaeth yn cael ei gynnig yn rhan amser, ac felly ni fyddai angen teithio 24/7.
- Byddai disgyblion ADY yn gymwys am gludiant am ddim petaent wedi eu hasesu fel rhai ag anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn ôl cyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddosbarth mewn ysgol brif-ffrwd oedd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni fel y'i mesurwyd yn ôl y llwybr cerdded byrraf oedd ar gael. Byddai disgyblion yn mynychu'r CAA o bob ardal o Fro Morgannwg ac y mae'r holl ddisgyblion ar hyn o bryd yn cael eu cludo i'r llety dros dro yn Ysgol y Ddraig. Seiliwyd y meini prawf asesu ar y Polisi Cludiant ADY sydd yn canoli ar hygyrchedd y ddarpariaeth i'r disgyblion ar sail eu galluoedd corfforol.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg fod croeso i'r cynnig gan y byddai'r ddarpariaeth wedyn ar gael mewn man mwy canolog i ardal Bro Morgannwg gyfan. Byddai hefyd yn caniatáu i'r disgyblion fynychu cyfleuster mwy modern. Byddai'r lle ychwanegol a ddeuai yn sgil hyn yn Ysgol Gynradd Llandochau yn cael ei ddefnyddio i gynyddu nifer y disgyblion ar lyfrau'r ysgol, felly yr oedd hwn yn gynnig fyddai'n llesol i bawb.

Wedi i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, aeth ymlaen i

ARGYMHELLWYD – NODI cynnwys cyfeirnod y Cabinet a chadarnhau'r cynnig, fel y'i nodwyd yn adroddiad atodol y Cabinet.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

O ystyried cynnwys adroddiad y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod

Trefniadaeth Ysgolion 2018 ar y cynnig i drosglwyddo'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023.

128 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CDS) –

Dywedodd y Rheolwr Cefnogi Ariannol y byddai'r sefyllfa refeniw am 2022/23 yn parhau yn heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd oblygiadau parhaus pandemig COVID-19. Deuai pwysau i'r amlwg yn ystod 2022/23 yng nghyswllt taliadau sefydlog am ynni, chwyddiant yn gyffredinol, ac yn enwedig mewn meysydd fel cludiant ysgolion a chostau byw, ac yr oedd pwysau ar staffio ar draws yr holl wasanaethau; byddai angen cadw golwg fanwl ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol.

Er ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, y rhagolwg oedd y byddai'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn llwyddo i adennill costau yn dilyn trosglwyddo £50k o'r gronfa resymoli wrth gefn i dalu am rentu uned symudol yn Ysgol Y Deri ar gyfer y Dosbarth Dysgu a Lles. Hefyd, efallai y bydd angen trosglwyddiad pellach o'r gronfa Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wrth gefn i dalu am ddiffyg incwm Allsirol a gyllidebwyd am ddisgyblion o'r tu allan i Fro Morgannwg yn Ysgol y Deri.

Nodwyd targed effeithiolrwydd o £68k ar gyfer y Gyfarwyddiaeth yng nghynigion terfynol y gyllideb refeniw a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 28 Chwefror 2022. Bydd yr arbediad mewn Strategaeth, Diwylliant, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau o £32k yn dod o gynilion yn erbyn y gyllideb bensiynau hanesyddol, a gweddill yr arbedion yn cael eu nodi gan y gwasanaeth wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Gan nad oedd cwestiynau na sylwadau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23.

129 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CDS) –

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi cyfoesiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod 1 Ebrill hyd at 31 Mai 2022. Yr oedd manylion y cynllun yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Cefnogi Ariannol fod yr adroddiad yn gosod allan unrhyw newidiadau fyddai eu hangen i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhaglenni'r blynyddoedd i ddod. Yr oedd tri (cywiriad i baragraff 2.5 yr adroddiad) chais yn yr adroddiad hwn oedd yn dod dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Cais i gynnwys cynllun newydd yn y Rhaglen Gyfalaf yng nghyswllt palmentu'r iard chwarae yn Ysgol Gynradd Colcot, cais i ychwanegu'r grant Ysgolion sy'n Canoli ar y Gymuned at y Rhaglen Gyfalaf ac

agor ysgolion yn ddiogel ac effeithiol i'r gymuned y tu allan i oriau traddodiadol, a Phafiliwn Penarth.

Gan nad oedd cwestiynau na sylwadau, aeth y Pwyllgor ymlaen i

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) o'r adroddiad.

(3) Nodi'r defyndd o Bwerau Argyfwng fel y manylir arnynt yn Atodiad 4 yr adroddiad.

(4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn Argymhelliad (4) o'r adroddiad.

<u>Rhesym dros yr argymhellion</u>

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

130 CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR Y GWANWYN 2022 (CDS) –

Dywedodd y Prif Bartner Gwella ar gyfer Consortiwm Canol y De, yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd, y datblygwyd fframwaith arolygu diwygiedig gan Estyn i'w dreialu gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) yn ystod tymor y gwanwyn 2022.

Gwahoddodd Estyn holl ysgolion ac UCD y wladwriaeth i gynnig eu hunain am arolygiad dan y cynllun peilot gan ddefnyddio'r fframwaith diwygiedig. Bu tair ysgol o Fro Morgannwg (Ysgol Gynradd Llandochau, Ysgol Stanwell ac Ysgol Uwchradd Whitmore) yn rhan o'r cynllun peilot ac fe'u harolygwyd yn ystod tymor y gwanwyn 2022. Nid oedd yr un o'r ysgolion mewn dilyniant statudol (Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig) nac Arolygiad Estyn.

Ychwanegodd y Swyddog, gyda'r fframwaith diwygiedig, fod y cyfnod rhybudd i ysgolion wedi ei ostwng o 15 i 10 diwrnod gwaith. Derbyniodd yr holl ysgolion a ddewiswyd ar gyfer yr arolygiadau peilot yn nhymor y gwanwyn 2022 hysbysiad cynnar o ryw bum diwrnod gwaith cyn y cyfnod rhybudd ffurfiol. Ni fyddai adroddiadau'r arolygiadau o dymor y gwanwyn 2022 yn cynnwys graddau adolygol ond byddai mwy o fanylion yn hytrach am gryfderau a meysydd i'w gwella er mwyn cefnogi gwerthuso cryfach a hyrwyddo gwelliant.

Lle nododd Estyn arferion diddorol neu arloesol yn ystod arolygiad, gwahoddwyd ysgolion i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig fyddai'n cael ei gyhoeddi gan Estyn a'i rannu gydag ysgolion eraill. Gwahoddwyd Ysgol Stanwell ac Ysgol Uwchradd Whitmore i ysgrifennu dwy astudiaeth achos yr un.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2022, cafodd un lleoliad meithrin preifat, Grŵp Chwarae Swallow, hefyd ei arolygu ar y cyd gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Ni nodwyd unrhyw weithgaredd dilynol gan Estyn nac Arolygiaeth Gofal Cymru yng nghyswllt Grŵp Chwarae Swallow.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau yn sgil hynny gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru yn rhedeg cod lliw i ddangos lefel y gefnogaeth a dderbynnid gan ysgol o'r consortia rhanbarthol. Fodd bynnag, ataliwyd y codio ym Mawrth '20 ar ddechrau'r pandemig cenedlaethol, ac y mae'r system gyfredol yn awr yn gwahaniaethu rhwng cefnogaeth 'craidd' a chefnogaeth 'well', ac yr oedd yr ysgolion yn croesawu hyn. I gefnogi rhieni wrth fesur safonau ysgol, o Fedi '22 ymlaen, bydd ysgolion yn hysbysebu'n gyhoeddus grynodeb o ganllawiau am ganfyddiadau hunanwerthuso yn ogystal â blaenoriaethau allweddol yr ysgol, a'r gefnogaeth a dderbyniodd yr ysgol.

Wedi i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr adroddiad, aeth ymlaen i

ARGYMHELLWYD – NODI canlyniadau arolygiad y tair ysgol a'r un lleoliad meithrin nas cynhelir a arolygwyd yn ystod tymor y gwanwyn.

<u>Rhesym dros yr argymhellion</u>

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad ar ganfyddiadau Estyn am ysgolion lleol a lleoliadau meithrin nas cynhelir.

131 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CDS) –

Yr oedd yr adroddiad perfformiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, yn gosod allan gynnydd y Cyngor yn chwarter 4 (Ch4) (1 Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022) tuag at gyrraedd ymrwymiadau eu Cynllun Cyflwyno Blynyddol (2021/22) fel y maent wedi eu hasio ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Rhoddwyd statws perfformiad Gwyrdd i 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch4 oedd yn adlewyrchu'r cynnydd da hyd yma. Yr oedd hyn yn gadarnhaol, o ystyried yr heriau sy'n dal i ddeillio o'r pandemig.

Yr oedd Atodiad A i'r adroddiad yn amlinellu perfformiad y Cyngor yn erbyn ymrwymiadau eu Cynllun Cyflwyno Blynyddol am 2021/22 fel y maent wedi eu hasio â chylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

Yn dilyn cyflwyniad y Cyfarwyddwr, a chwestiynau yn sgil hynny gan y Pwyllgor, ychwanegodd y swyddogion y canlynol:

- Yr oedd nifer y dysgwyr Cymraeg wedi gostwng yn ystod y pandemig cenedlaethol, ac yr oedd y Cyngor yn mynd ati i ail-recriwtio. Cafwyd derbyniad da i'r ddarpariaeth dysgu ar-lein a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig, a byddid felly yn parhau â hyn. Yr oedd ymdrechion recriwtio hefyd yn cael eu gwneud trwy agwedd 'teulu cyfan' dan raglen ysgolion yr 21ain ganrif.
- Cydnabuwyd yr angen am fwy o ymdrech i ymwneud â'r gymuned dysgu gartref, ac y byddai'r Cyngor yn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddwyn addysgwyr cartref i mewn i ddarpariaeth Gymraeg at y dyfodol. Byddai hyn yn golygu cyfeirio unigolion at y gwahanol adnoddau sydd ar gael am ddim.
- Yr oedd dyfeisiadau tabled hefyd ar gael i'w benthyca yn llyfrgelloedd Bro Morgannwg er mwyn cefnogi unigolion i gyrchu adnoddau dysgu Cymraeg ar-lein.
- Yr oedd y gwasanaeth llyfrgell wedi gwneud defnydd llawn o grant uniongyrchol o £10k i gynnal gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles o lyfrgelloedd cyhoeddus. Un o amcanion allweddol y Cyngor at y dyfodol fyddai hysbysebu'r amryfal wasanaethau, digwyddiadau a chyfleusterau sydd ar gael yn llyfrgelloedd Bro Morgannwg a byddai gwybodaeth yn dal ar gael ar-lein trwy wefan y Cyngor a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Wedi i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau yn codi o hynny, aeth ymlaen i

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni gmrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaetholl y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) Nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i foldome ei ofynion perfformiad fel y'u hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Sicrhau bod Aelodau’n cadw trosolwg o’r materion adfer sy’n effeithio ar waith y Cyngor a’u Pwyllgorau Craffu priodol.